Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Tirion Hall

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bryn Tirion Hall

Mae Ysgol Bryn Tirion Hall wedi'i lleoli mewn plasty mawr mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a Sir y Fflint. QEwC Ltd yw'r perchennog. Mae'r ysgol yn darparu darpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl am 52 wythnos y flwyddyn i ddisgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae 35 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae disgyblion yn amrywio o ran oedran o 7 i 16 oed. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae gan ryw hanner y disgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn lleoli disgyblion yn yr ysgol.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Medi 2013. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2016.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol hynod effeithiol ar gyfer yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda, ac yn gweithio â brwdfrydedd. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir, yn rhannu ymrwymiad cryf i welliant parhaus yr ysgol, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o gyrhaeddiad ac ymddygiad disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio system rheoli gwybodaeth yr ysgol yn dda i fonitro ac olrhain agweddau pwysig ar les disgyblion, fel ymgysylltu â dysgu, ac ymddygiad.

Mae'r prosesau a'r systemau yn yr ysgol wedi'u sefydlu'n dda. Mae asesiadau cychwynnol yn berthnasol ac yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i staff er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol pob un o'r disgyblion. Mae gan yr ysgol system olrhain drylwyr ar draws yr ysgol. Mae prosesau monitro i asesu a gwerthuso'r cynnydd a wna disgyblion yn hynod effeithiol.

Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn effeithio'n gadarnhaol ar yr hyder a'r ymddygiad a ddangosir gan y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gan ddisgyblion ran weithgar ym mywyd yr ysgol a'r gymuned leol. Maent yn ymateb yn ffafriol i gael rolau arwain yn yr ysgol, fel cynnal arolwg o agweddau disgyblion tuag at gydraddoldeb, bwlio a'r system wobrwyo. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda, ac maent wedi gwneud newidiadau buddiol i ddarpariaeth yn dilyn canlyniadau'r arolygon hyn sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'r therapydd lleferydd ac iaith, a gyflogir gan yr ysgol, yn datblygu dealltwriaeth a set medrau staff yn effeithiol i gefnogi cynnydd disgyblion mewn cyfathrebu. Mae rolau cyfunol y staff addysg awyr agored, y staff gyrfaoedd a'r arweinydd medrau byw yn annibynnol yn darparu profiadau gwerthfawr i gryfhau dysgu disgyblion ar draws amrywiaeth o amgylcheddau. Mae'r dull hwn yn dechrau rhoi i ddisgyblion y medrau hanfodol y bydd eu hangen arnynt ar gyfer lleoliadau ar ôl yr ysgol.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau pwysig i'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn gysylltiedig â gwaith ac wedi cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o addysg awyr agored sy'n darparu lefel uchel o her a chyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion er mwyn iddynt ddatblygu medrau datrys problemau a medrau meddwl.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau pwysig i'r cwricwlwm i gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu ystod eang o fedrau byw yn annibynnol a medrau yn gysylltiedig â gwaith. Mae athrawon sy'n cyflwyno'r rhaglenni hyn yn cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion yn y cyrsiau unigol yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o gynllunio'r medrau hyn fel ysgol gyfan ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Gwella cynllunio ysgol gyfan o ran medrau byw yn annibynnol a medrau yn gysylltiedig â gwaith ar draws y cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn raddol.**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod partneriaethau effeithiol ar waith sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo'n esmwyth i ysgolion lleol ac addysg bellach, lle bo hyn yn briodol**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf tuag at fodloni'r argymhelliad hwn.

I'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn Ysgol Bryn Tirion Hall, nid yw mynediad at wersi prif ffrwd yn briodol. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol ag ysgolion lleol, ac mae hyn wedi arwain at gyfleoedd gwerth chweil i rannu arfer dda.

Mae pob un o'r disgyblion ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3 yn elwa ar garwsél gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys blociau chwe wythnos o sesiynau rhagflas mewn addysg yn gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'busnes pêl-droed' a 'hanes yn cwrdd â thechnoleg'. Caiff disgyblion gyfle i ddatblygu medrau ar draws y meysydd hyn i baratoi ar gyfer byd gwaith.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd rhaglen gynhwysfawr yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae disgyblion yn elwa ar y rhaglen hon am o leiaf ddiwrnod bob wythnos i ddatblygu dealltwriaeth o fyd gwaith a sut i gymhwyso'r medrau gwerthfawr y maent wedi eu caffael mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae rhaglenni'n cynnwys rhaglennu cyfrifiadurol, technoleg gwybodaeth ac argraffu 3D a medrau adeiladu. Mae disgyblion yn gweithio i ennill cymwysterau addas a hyfforddiant diwydiannol ychwanegol, ochr yn ochr â'r cymwysterau TGCh a gynigir yn yr ysgol.

Mae'r rhaglenni hyn yn adlewyrchu anghenion a diddordebau'r disgyblion ym mhob carfan ac yn caniatáu hyblygrwydd yn y llwybrau a gynigir, wrth i anghenion y disgyblion newid yn yr ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/02/2019